Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

**SWYDDOGOL**

Heddlu • Police DYFED-POWYS

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Y Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **MS Teams** |
| **Dyddiad:** | **28 Ebrill 2026** |
| **Amser:** | **1.30pm–3.30pm** |

| | |
|---|---|
| **Yr Aelodau:** | • Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn<br>• Y Prif Gwnstabl, Ifan Charles<br>• Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh), Carys Morgans<br>• Y Cyfarwyddwr Cyllid, Edwin Harries |
| **Hefyd yn bresennol:** | • Swyddog Staff, Ditectif Arolygydd Samantha Gregory (SG)<br>• Swyddog Cymorth Gweithredol SCHTh, Sophie Morgan (SM) |
| **Ymddiheuriadau:** | • Prif Swyddog Cyllid SCHTh, Nicola Davies<br>• Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol, Linda Williams |

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol a Phrif Swyddog Cyllid Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh). Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir.

## 2. Y diweddaraf am gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Cam gweithredu | Crynodeb | Y diweddaraf |
|---|---|---|
| PB 120 | Cynghorydd yr Heddlu ar gyfer Swyddogion Etholedig i gynnig sesiwn friffio ddiogelwch i ymgeiswyr etholiad y Senedd o fewn ardal yr heddlu. | Wedi'i gwblhau |
| PB 121 | Yn dilyn etholiadau'r Senedd, dylid cynnig cyfarfod i'r swyddog etholedig ynghylch y diweddariad gan yr heddlu. | Cyflawnwyd |
| PB 122 | Yr heddlu i rannu eu hamserlen â SCHTh ar gyfer cwblhau'r broses esblygu. | Ar y gweill |
| PB 123 | Yr heddlu i rannu cylch gorchwyl Maes Busnes Rheoli Gwybodaeth â'r SCHTh. | Wedi'i gwblhau |

| | | |
|---|---|---|
| PB 124 | Yr wybodaeth ddiweddaraf am y Maes Busnes Rheoli Gwybodaeth i'w chyflwyno'n ôl i'r Bwrdd Plismona yn ystod Gwanwyn 2026. | Wedi'i gwblhau Cyfarfod wedi'i drefnu. |

## 3. Pwnc ffocws:

### a) Gwerthusiad o Fenter Atal Cam-drin Domestig y Tîm Plismona ac Atal Bro

Trafododd y bwrdd gyflwyniad ar Werthusiad o Fenter Atal Cam-drin Domestig y Tîm Plismona a Atal Bro.

Gofynnodd y Prif Gwnstabl i'r cyflwyniad gael ei ddychwelyd ger bron y Bwrdd Plismona i'w adolygu wedi iddo gael ei ystyried drwy strwythur llywodraethu'r heddlu.

## 4. Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl

**Bydd cynllun mandadol wedi'i dargedu yn cael ei roi i bob plentyn sy'n cael ei ddal yn cario cyllell yng Nghymru a Lloegr i'w hatal rhag aildroseddu:**

a) **Beth fydd gweithredu'r newid hwn yn lleol yn ardal Heddlu Dyfed-Powys yn ei olygu pan fydd swyddog yn dod ar draws plentyn â chyllell?**

Darparodd y Prif Gwnstabl yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â'r cwestiynau a ofynnwyd gan y CHTh.

- Pan fydd plentyn wedi'i nodi i fod â chyllell yn ei feddiant, caiff digwyddiad ei gofnodi gan y swyddog sy'n ymwneud â'r achos.
- Anfonir digwyddiad hysbysadwy awtomatig yn uniongyrchol i'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid o fewn 24 awr.
- Bydd y swyddog yn cyflwyno Hysbysiad er Diogelu'r Cyhoedd cyn diwedd ei ddyletswydd.
- Cynhelir trafodaeth strategaeth, a bydd y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid yn bresennol i greu cynllun cyn gynted â phosibl.
- Bydd y swyddog sy'n ymwneud â'r achos yn ymchwilio i'r digwydd ac yn cysylltu â'r swyddog/tîm Cyfiawnder Ieuenctid cyn y penderfynir ar ganlyniad.

### b) Pa fylchau/rhwystrau a allai wneud y newid hwn yn anodd i'w gyflawni?

- Angen cadw at amserlen a chynnal momentwm ymchwiliol er mwyn sicrhau'r canlyniad priodol ac ymyrraeth gynnar.

- Nid oes strwythur llywodraethu/model goruchwylio penodol.
- Angen sicrhau'r oruchwyliaeth gywir gan yr uned reoli sylfaenol a dealltwriaeth strategol y pencadlys i gefnogi'r broses.

**c) Sut fydd yr heddlu yn monitro gweithrediad a pherfformiad y newid hwn?**

Bydd sleid yn cael ei hychwanegu at y system rheoli troseddau i'w hadolygu'n fisol ar gyfer pob uned reoli sylfaenol – bydd hyn yn canolbwyntio ar bob ymchwiliad sy'n cynnwys plant o dan 18 oed, ond bydd yn amlygu'r digwyddiadau meddiant cyllell o fewn y sleid – bydd hyn yn gwella dealltwriaeth yr uned reoli sylfaenol ar lefel leol.

**d) A welwyd unrhyw dueddiadau amlwg mewn atgyfeiriadau i PREVENT neu lwybrau ymyrraeth eraill sydd wedi cynnwys plant/pobl ifanc o fewn ardal blismona Dyfed-Powys?**

- Gwelwyd cynnydd o 65% mewn atgyfeiriadau gan Heddlu Dyfed-Powys ar draws wyth asiantaeth wahanol. Roedd y mwyafrif o'r atgyfeiriadau ar gyfer bechgyn 12-17 oed.
- Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd o 30% yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer benywod.
- Cyhoeddwyd fforwm proffesiynol amlasiantaethol yn ymwneud ag ymosodiad S18 Ysgol Dyffryn Aman (plentyn benywaidd) yn ystod y chwarter hwn a rhoddodd pob asiantaeth bwyslais ar hyfforddi a chyflwyno atgyfeiriadau PREVENT. Nid oes tystiolaeth i gefnogi hyn, ond gallai egluro pam y gwelwyd cynnydd.

**e) Pa waith mae Heddlu Dyfed-Powys wedi'i wneud i godi ymwybyddiaeth o'r 'Ddyletswydd Prevent' yn fewnol, neu mewn cydweithrediad â phartneriaid?**

- Hyfforddiant Dysgu a Datblygu cychwynnol yr heddlu– mae Uned Eithafiaeth a Gwrth-Derfysgaeth Cymru yn rhoi sylw i PREVENT fel rhan o'u hyfforddiant gwrthderfysgaeth i swyddogion dan hyfforddiant.
- Mae PREVENT hefyd yn rhan o e-ddysgu'r myfyrwyr, y mae'n ofynnol iddynt ei gwblhau. Mae e-ddysgu yn orfodol felly mae Dysgu a Datblygu yn sicrhau cyfradd gydymffurfio o 100% ar gyfer pob swyddog dan hyfforddiant.
- Cynhelir sesiwn hyfforddiant rhanbarthol ar PREVENT ym Mhencadlys Heddlu De Cymru ar 20 Ebrill 2026 a 27 Ebrill 2026. Bydd 29 o swyddogion o bob cwr o Heddlu Dyfed-Powys yn mynychu, naill ai o bell neu wyneb yn wyneb.

**f) Pa mor barod yw'r heddlu i ddelio â digwyddiad a fydd yn golygu rhannu'r cyfrifoldeb ag asiantaeth arall e.e. Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig?**

Darparodd y Prif Gwnstabl ddiweddariad yn nodi bod yr heddlu'n gweithio a hyfforddi gydag asiantaethau partner, yn enwedig y gwasanaethau golau glas ac ymatebwyr categori 2 a 3 (awdurdod lleol, bwrdd dŵr, bwrdd iechyd ac ati). Mae Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed-Powys yn darparu hyfforddiant amlasiantaeth ar y cyd ar egwyddorion gweithredu amlasiantaethol wrth ymateb i ddigwyddiadau brys (JESIP) yn rheolaidd, gan gynnwys sut a phryd i gynnal cyfarfod grŵp cydlynu tactegol / cydlynu strategol.

Yn ogystal â hyn, mae Plismona Gwrthderfysgaeth Cymru yn cynnal hyfforddiant ar Ymosodiadau Difaol gan Derfysgwyr, sydd unwaith eto yn seiliedig ar gydleoli a chydlynu amlasiantaethol gyda'r nod cyffredinol o achub bywydau a lleihau niwed. Caiff comanderiaid Efydd, Arian ac Aur (GSB) o fewn yr heddlu hyfforddiant GSB penodol drwy'r Tîm Cynllunio Gweithrediadau i sicrhau eu bod yn deall eu dyletswyddau mewn perthynas â digwyddiadau critigol a mawr, y gwaith o ddarparu camau gweithredu cyflym a sefydlu strwythurau gorchymyn effeithiol.

Mae'r hyfforddiant hwn wedi cael ei roi ar waith sawl gwaith yn ddiweddar, gan gynnwys pan ddaeth y trên oddi ar y traciau yn Llangennech (Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heddlu Dyfed-Powys), Storm Darragh (Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, yr awdurdodau lleol, rhwydwaith symudol EE) a'r llifogydd diweddar yn Hendy-gwyn ar Daf (Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Swyddfa'r Met, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr awdurdod lleol).

Ar sail sy'n debycach i 'busnes fel arfer', bydd yr heddlu'n gweithio'n agos gyda Heddlu Trafnidiaeth Prydain pan fyddant yn ymateb i adroddiadau am unigolyn coll, gweithgareddau gangiau troseddu trefnedig ac anhrefn cyhoeddus.

Trafododd y bwrdd y digwyddiad diweddar yng ngorsaf drenau Dinbych-y-pysgod. Dywedodd y Prif Gwnstabl ei fod wedi cyfarfod yn ddiweddar â Chyngor Sir Penfro a Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru. Darparodd y CHTh ddiweddariad yn nodi ei fod wedi cael gohebiaeth gan y cyngor ac y byddai'n cyfarfod â chynrychiolwyr yn fuan.

**Camau gweithredu: - Y Prif Gwnstabl i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r CHTh yn dilyn cyfarfod â Chyngor Sir Penfro.**

**Camau gweithredu: - Uwch-arolygydd Uned Reoli Sylfaenol Sir Benfro i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn cyfarfod â'r Athro Uzo ynghylch y digwyddiad yn Ninbych-y-pysgod.**

## 5. I'w nodi

## a) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Gwnstabl

Darparwyd diweddariad gan y Prif Gwnstabl i'r bwrdd yn manylu ar ddigwyddiadau a gweithrediadau a oedd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf. Mae'r adroddiad yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am waith plismona da, gan gynnwys yr anhrefn treisgar yng ngorsaf drenau Dinbych-y-pysgod, wythnos plismona ymatebol gyda nifer o weithgareddau a chyfleoedd i ymgysylltu a chyfathrebu ar draws yr heddlu.

## b) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Rhoddodd y CHTh ddiweddariad byr ynghylch ei weithgareddau a'i gyfarfodydd a gynhaliwyd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Plismona, gan gynnwys diwrnod ymgysylltu â'r gymuned yn Sir Gaerfyrddin, cyfarfod â Llysgenhadon Ieuenctid ac ymweliad â CAE a Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru.

## c) Yr wybodaeth ddiweddaraf am yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data

Darparwyd papur diweddaru i'r bwrdd gan y Rheolwr Gwybodaeth ynghylch y broses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data.

Mae gwaith mewn perthynas â datblygu system electronig i gwmpasu'r broses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data yn parhau i fod ar waith. Mae'r broses hon yn rhan o'r adolygiad o'r adran sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd, ac sydd i fod i gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mehefin eleni. Mae Dadansoddydd Newid a Gwelliant Parhaus wedi'i neilltuo i ddarparu cefnogaeth i'r Cynghorydd Diogelu Data i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r broses asesiad o'r effaith ar ddiogelu data newydd, yn benodol y broses electronig newydd sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.

Mae'r gwaith o recriwtio Cynghorydd Diogelu Data dros dro i gynorthwyo'r maes gwaith hwn yn parhau drwy'r broses Datganiad o Ddiddordeb.

Mae cyfarfodydd blaenoriaethu'r asesiad o'r effaith ar ddiogelu data y Dirprwy Brif Gwnstabl yn parhau i gael eu cynnal, gyda'r Dirprwy Brif Gwnstabl, y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, y Rheolwr Caffael a'r Rheolwr Gwybodaeth, yn mynychu, yn ogystal â'r SCHTh yn ôl yr angen. O hyn ymlaen, mae disgwyl i'r Uwcharolygydd dros dro sydd wedi'i neilltuo i'r Adran Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfedd fynychu.

## d) Ymyrraeth, atal ac ymgysylltu: Plant a phobl ifanc

Cyflwynwyd papur diweddaru i'r bwrdd ynghylch Atal, Ymyrraeth ac Ymgysylltu: Llif gwaith Plant a Phobl Ifanc.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariadau ynghylch memorandwm cyd-ddealltwriaeth i sefydlu trefniadau clir a chytunedig ar gyfer y gwaith proffesiynol o reoli, gosod tasgau a goruchwylio rôl y Dadansoddydd Plismona sy'n Canolbwyntio ar Blant.

Cynhaliwyd paneli cyfweld ar gyfer rolau Swyddogion Atal Troseddu ymhlith Pobl Ifanc yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys gyda chynrychiolaeth o'r Timau Plismona ac Atal Bro a'r Gwasanaeth Cymorth Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd plant a phobl ifanc hefyd wedi'u cynrychioli ar bob panel.

Cynhaliwyd y broses o lunio rhestr fer ar gyfer rolau Swyddogion Allgymorth Addysg Bellach yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys, gyda chynrychiolwyr o Dimau Plismona ac Atal Bro a sefydliadau addysg bellach.

Cytunwyd ar Fapiau Prosesau ar gyfer y broses atgyfeirio a mecanweithiau ar sut mae swyddogion/staff a phartneriaid yn atgyfeirio plant ar gyfer ymyrraeth gan Swyddogion Atal Troseddu ymhlith Pobl Ifanc.

Parhawyd i fonitro ymgysylltiad Addysg Bellach y Timau Plismona ac Atal Bro a gosodwyd blaenoriaethau ar Cyswllt Dyfed-Powys.

## e) Y newyddion diweddaraf am fodel gweithredu'r heddlu

Darparodd yr Uwch-swyddog Cyfrifol, Adolygiad yr Heddlu bapur diweddaru i'r bwrdd ar fodel gweithredu'r heddlu.

Cwblhawyd tri gwerthusiad/adolygiad pwynt gwirio yn ddiweddar. Dylid nodi y bydd gwerthusiadau ôl-weithredu deuddeg mis yn cael eu cynnal yn erbyn y manteision bwriadedig, lle bo modd, ac mai bwriad yr adolygiadau pwynt gwirio yw rhoi sicrwydd dros dro nes y gellir cwblhau gwerthusiad ôl-weithredu llawn.

Cyflwynwyd argymhellion o werthusiad cynllun peilot Model goruchwylio gogledd/de Powys i uwch noddwyr ar 28 Ionawr 2026 lle codwyd camau gweithredu i Gomander Uned Rheoli Sylfaenol Powys, a benodwyd yn ddiweddar, i ystyried y camau nesaf.

Yn dilyn sesiynau ymgysylltu sylweddol ar draws yr uned reoli sylfaenol, cynigiodd Comander yr uned reoli sylfaenol roi'r gorau i'r cynllun peilot ac adfer y model goruchwylio gogledd/canolbarth/de. Fe'i cyflwynwyd wedi hynny i uwch noddwyr ar 9 Ebrill 2026 ac fe'i cymeradwywyd. Mae'r rhai sy'n gweithio yn yr uned reoli sylfaenol yn gefnogol iawn i'r newid hwn a bydd yn cael ei weithredu yn ystod mis Medi 2026 oherwydd y cyfnodau rhybudd mandadol sy'n gysylltiedig â newidiadau i batrymau gweithio /mannau gwaith.

O ran yr ymateb a'r gwerthusiad o rota'r ddalfa, diben yr adolygiad pwynt gwirio chwe mis interim hwn oedd deall unrhyw fanteision/anfanteision amlwg i'r newid er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â chanfyddiadau ac argymhellion sy'n deillio o'r ffrwd gwaith Rhifau Gweithredu Dymunol. Cwblhawyd yr eitem waith hon ar 31 Mawrth 2026 ac mae wedi

dangos bod y newid i batrwm y rota a weithredwyd ym mis Mai 2025 yn parhau i gael 'derbyniad da' ac yn cael ei gefnogi gan y gweithlu. Bydd hyn yn cefnogi unrhyw benderfyniadau ar unrhyw awgrym ar gyfer newid rota o ganlyniad i'r ffrwd gwaith Rhifau Gweithrediadau Dymunol.

Trafodwyd gwerthusiad ôl-weithredu deuddeg mis o'r strwythur plismona gweithredol uwch yng nghyfarfod yr uwch noddwyr ar 9 Ebrill 2026. Cyflawnwyd y gwerthusiad ansoddol hwn drwy gasglu adborth drwy gynnal sawl grŵp ffocws gydag arweinwyr swyddogion lifrog a'r Adran Ymchwilio i Droseddau i ddeall beth sy'n 'gweithio'n dda, beth sydd ddim a sut y gall weithio'n well'. Mae'r gwerthusiad wedi arwain at ddatblygu deg argymhelliad/pwynt dysgu sydd wedi creu chwe cham gweithredu (gyda pherchnogion a nodwyd ac y cytunwyd arnynt), a fydd yn cael eu holrhain yn fisol trwy uwch noddwyr. Cyflwynir y gwerthusiad hwn ger bron y Bwrdd Newid a Chynhyrchiant nesaf ar 21 Mai 2026.

Cyflawnwyd y gwaith o ehangu cylch gwaith yr Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig, y tu hwnt i raglen beilot gychwynnol Sir Gaerfyrddin, i'w weithredu ledled ardal yr heddlu yn llawn ym mis Hydref 2024. Yn 2025, comisiynwyd Prifysgol Bangor i gynnal adolygiad academaidd, ac adolygiad sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr, o'r swyddogaeth. Disgwylir i'r diweddariad yn ymwneud â 'chanfyddiadau interim hanner ffordd trwy'r adolygiad' gael ei ddychwelyd i'r heddlu yn fuan, a disgwylir yr adolygiad llawn erbyn mis Hydref 2026. Bydd yr 'adolygiad canol cyfnod' hwn yn cefnogi gwerthusiad sy'n canolbwyntio mwy ar yr heddlu. Dechreuwyd ar y gwaith ar 13 Ebrill 2026 wedi i gylch gorchwyl gael ei gymeradwyo gan uwch noddwyr ar 9 Ebrill.

## 6. I'w benderfynu

### a) Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol 2026-2027

Cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol i'r Bwrdd Plismona gan Brif Weithredwr SCHTh i'w chymeradwyo'n swyddogol gan y bwrdd.
Roedd y fframwaith wedi bod trwy broses ymgynghori gan uwch-reolwyr ac arweinwyr o fewn y sefydliadau er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu newidiadau i arferion a deddfwriaeth yr oedd angen eu hymgorffori yn y fframwaith.

Mae aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio hefyd wedi rhoi adborth ar y fframwaith, sydd wedi'i ymgorffori yn y fersiwn ddiwygiedig.

Mae'r fframwaith yn nodi'r egwyddorion, y strwythurau a'r prosesau a ddefnyddir i lywodraethu SCHTh a Heddlu Dyfed-Powys, ar y cyd ac ar wahân.

**Penderfyniad: - Cymeradwyodd y bwrdd y Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol diwygiedig ar gyfer 2026-2027.**

| Cam gweithredu | Crynodeb o'r camau gweithredu o gyfarfod 28 Ebrill 2026 | I'w yrru yn ei flaen gan |
|---|---|---|
| PB 125 | Yr heddlu i ddarparu amserlen ar gyfer y broses esbylgu | Yr heddlu |
| PB 126 | Y Prif Gwnstabl i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r CHTh yn dilyn cyfarfod â Chyngor Sir Penfro. | Yr heddlu |
| PB 127 | Uwch-arolygydd Uned Reoli Sylfaenol Sir Benfro i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn cyfarfod â'r Athro Uzo ynghylch y digwyddiad yn Ninbych-y-pysgod. | Yr heddlu |

DIWEDD